Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfarfod o'r Bwrdd

16 Hydref 2013

Teitl y Papur	**Cynllun Dirprwyo Ariannol**
Cyfeirnod y Papur:	NRW B (O) 43.13
Paratowyd y Papur Gan:	Andrew Jervis

Pwrpas y Papur:	Er mwyn diweddaru'r Bwrdd ar ailddrafftio'r Cynllun Dirprwyo Ariannol.
Argymhelliad:	Cymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo Ariannol Diwygiedig
Penderfyniad sydd ei Angen:	Cymeradwyaeth

Effaith: Nodwch – efallai na fydd yr holl benawdau'n berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd –** Mae'r Cynllun Dirprwyo Ariannol yn diffinio'r cyfyngiadau dirprwyedig ar gyfer gwneud penderfyniadau ariannol yn CNC. Mae'n ddogfen allweddol yn fframwaith llywodraethu CNC ac mae'n sicrhau bod y cronfeydd cyhoeddus yn cael eu gwario'n effeithiol gan sicrhau'r egwyddorion o briodoldeb a rheoleidd-dra. **Effaith ar yr Economi**: Dim effaith **Effaith ar Gymuned**: Dim effaith **Effaith ar Wybodaeth**: Dim effaith

Cyflwyniad

1. Mae'r Cynllun Dirprwyo Ariannol (CDA) yn sefydlu cyfrifoldeb dirprwyedig ar gyfer penderfyniadau ariannol. Bu'r CDA presennol mewn lle ers breinio a theimlwyd bod digon o amser wedi pasio i adolygu, a lle bo'n briodol, diwygio adrannau. Byddai'r ddogfen ddiwygiedig yn cynnwys holl weithgareddau CNC ac yn awr mae'n dirymu'r angen ar gyfer parhad y ddogfennaeth flaenorol y CDA. Rhaid cydnabod mai proses ailadroddol yw hyn a bydd angen adolygiadau a diwygiadau pellach fel mae'r busnes yn aeddfedu. Drwy ragosod bydd yr adolygiadau'n lleihau ond mae hyn yn briodol o ystyried pwysigrwydd y ddogfen a bod unrhyw adolygiadau yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

Y Cynnig

2. Mae'r cynllun diwygiedig yn cysoni Cynllun CNC presennol a'r tri cynllun etifeddol ac mae'n dirymu'r angen i edrych ar bedair dogfen ar gyfer awdurdod dirprwyedig unigol. Y ddogfen ddiwygiedig yw Cynllun Dirprwyo Ariannol CNC.

3. Bydd adolygiadau pellach i'r CDA fel mae'r busnes yn aeddfedu a chynllun y corff yn newid. Bydd holl ailadroddiadau newydd y ddogfen yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

4. Mae'n ymarfer sy'n arbennig o anodd heb system raddio cyson i sefydlu lefelau awdurdodi. Mae'r ddogfen ddiwygiedig yn seiliedig ar ddull haen sy'n defnyddio'r Siartiau Cyfundrefnol presennol.

5. Mae lefelau awdurdodi fel a ganlyn:

   Haen 1 – Prif Weithredwr
   Haen 2 – Cyfarwyddwyr Gweithredol
   Haen 3 – Tîm Arweinyddiaeth
   Haen 4 – Adroddiadau uniongyrchol i'r Tîm Arweinyddiaeth

6. Mae yna rai meysydd penodol o weithgareddau busnes sy'n benodol iawn, fel Gweithrediadau'r Coedwigoedd ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y CDA drwy ddefnyddio'r bandiau cyflog presennol er mwyn canfod lefel priodol o awdurdod.

7. Yn ogystal roedd meysydd o'r busnes nad oedd wedi cael eu cynnwys o'r blaen ac mae'r rhain yn awr wedi cael eu hymgorffori.

8. Mae'r adolygiadau manwl i'w hystyried a'u cymeradwyo i'w gweld yn Atodiad 1. Mae'r holl adolygiadau'n parhau i fod yn unol â Memorandwm Ariannol CNC a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
   Gellir gweld y CDA llawn yn Atodiad 2.

Cynigion a'r Camau Nesaf

9. Os yw'n cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, y cam nesaf o'r broses fydd cyfathrebu'r CDA i staff drwy'r dulliau cyfathrebu arferol - mewnrwyd, Yr hyn y mae Rheolwyr Angen ei Wybod a chyfarfodydd tîm.

10. Dylid chwilio am unrhyw bryderon neu eglurder oddi wrth Gydlynydd y Cynllun Dirprwyo Ariannol sy'n gweithio yn y Tîm Cyllid ac Asedau Corfforaethol.

Risgiau

11. Bydd angen adolygiadau i'r CDA yn y dyfodol mewn cysylltiad â'r newid sy'n mynd ymlaen yn y corff. Os na fydd hyn yn digwydd gall cydrannau allweddol o'r ddirprwyaeth gael eu colli.

12. Mae'r ddogfen ddiwygiedig ynglŷn ag awdurdodi staff. Mae posibilrwydd bob amser y gellid mynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau. Fodd bynnag, teimlir mai risg isel yw hyn gyda'r fframwaith rheoli mewnol mewn lle.

Goblygiadau ariannol

13. Nid oes yna unrhyw oblygiadau cost.

Cyfathrebu

14. Unwaith y bydd CDA newydd wedi'i gymeradwyo bydd yn cael ei roi ar y fewnrwyd, a bydd rheolwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol ohono drwy'r rhybudd misol fel y gellir ei ledaenu drwy'u cyfarfodydd adrannol/tîm rheolaidd.